
CRYNODEB GWEITHREDOL A NEGESEUON ALLWEDDOL

- Mae daearyddiaeth economaidd y Gogledd yn amrywiol iawn, sydd wedi'i nodweddu gan amrywiaeth mewn GVA a lefelau cyflogau;
- Bu twf cadarn a chadarnhaol mewn cynhyrchedd a chyflogaeth dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae'r rhanbarth yn dal i fod ar ôl rhanbarthau eraill yn y DU yng nghyswllt dangosyddion economaidd allweddol;
- Mae hanes o dwf cryf iawn wedi bod yng ngogledd ddwyrain Cymru, ond bellach mae hyn yn cael ei gyfyngu gan ddiffyg isadeiledd (safleoedd a thrafnidiaeth) ynghyd â phrinder yn y farchnad lafur a chyflenwad sgiliau;
- Yng ngogledd orllewin Cymru, mae'r sector preifat yn wannach ac mae'r economi yn fwy dibynnol ar y sector cyhoeddus. Mae angen am isadeiledd wedi'i ariannu'n gyhoeddus i sbarduno a hwyluso twf sector preifat, a chefnogi datblygiadau cyflenwyr yn ymwneud â phrosiectau buddsoddiad ar raddfa fawr;
- Mae gan y rhanbarth gyfle mawr i gynhyrchu twf yn sgil buddsoddiadau arfaethedig gan y sector preifat mewn sectorau economaidd allweddol megis gweithgynhyrchu uwch ac ynni. Un prosiect strategol allweddol yw Prosiect Wylfa Newydd sydd werth £15bn, y prosiect isadeiledd mwyaf yng Nghymru ers cenhedlaeth a fydd yn cael effaith fawr ar fusnesau a'r farchnad lafur yn y rhanbarth;
- Er mwyn manteisio ar gyfleoedd o'r fath, mae'r rhanbarth wedi datblygu un weledigaeth gydgyssylltiedig ar gyfer twf economaidd a chyflogaeth, gydag ymrwymiad rhwng yr holl bartneriaid i weithio ar y cyd er diben cyffredin;
- Mae cytundeb wedi'i wneud i ganolbwyntio mwy ar "dwf cynhwysol", gan roi sylw i afreoleidd-dra cymdeithasol a gofodol o fewn y rhanbarth. Bydd angen i dwf gael ei ddsbarthu a'i raddio, yn unol â blaenoriaethau Cynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru a'n hymrwymiad dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
- Mae uchelgais glir ar gyfer y rhanbarth i osod ei hun fel un o brif leoliadau'r DU ar gyfer cynhyrchu ynni a gweithgynhyrchu uwch - ynghyd â bod yn ganolbwynt o arloesedd ac arbenigedd technoleg, a chanolfan o ragoriaeth ar gyfer twristiaeth gwerth uchel. Mae'r uchelgais hon yn adeiladu ar gryfderau a chyfleoedd, a bydd ei chyflawni yn creu ymagwedd fwy cynaliadwy a chytbwys i ddatblygu'r economi;
- Mae'r Rhaglenni Strategol a'r portffolio o Brosiectau sydd wedi'u hadnabod yn y ddogfen yn adlewyrchu'r weledigaeth a'r ymagwedd. Maent wedi'u cyd-ddylunio a'u datblygu gan randdeiliaid allweddol, yn benodol y sector preifat. Mae wyth Rhaglen Strategol sy'n rhai eang a hirdymor, a 25 Prosiect sy'n rhoi datrysiadau ar gyfer y tymor byrrach ac sydd yn bennaf yn brosiectau cyfalaf;
- Ffocws nifer o'n Prosiectau yw creu'r amodau priodol i ddenu buddsoddiad gan y sector preifat. Mae nifer o'n safleoedd ar gyfer datblygu busnes neu ddiwydiannol wedi'u "hoedi" ar hyn o bryd er enghraifft, ac mae angen buddsoddiad ymlaen llaw i alluogi i'r safleoedd hyn fod yn "barod i'r farchnad" ar gyfer y sector preifat. Mae hyn yn adlewyrchu'r angen am ymyrraeth ac i uchafu gwerth yr asedau sydd ar gael ar gyfer twf economaidd ledled y rhanbarth;
- Ar y cyd, mae'r prosiectau sydd wedi'u hadnabod yn rhai trawsffurfiol - mae'n becyn cyffrous o brosiectau arloesol sy'n rhyng-gysylltiedig ac yn gyd-ddibynnol. Bydd eu cyflawni yn cefnogi'r rhanbarth i ddod dros y rhwystrau a wynebir gan y sector preifat ar hyn o bryd i fuddsoddi yn y rhanbarth a chreu swyddi. Yn ogystal, byddant yn cefnogi'r rhanbarth i addasu i "rymoedd

newydd" sy'n effeithio ar fusnesau, a pharatoi ar eu cyfer, megis datgarboneiddio, awtomeiddio, deallusrwydd artiffisial a ffurfiau eraill o ddigideiddio. Mae ffocws yn benodol ar gefnogi technolegau carbon isel i roi hwb i gynhyrchedd a chreu swyddi gwerth uchel;

- Cyfanswm cost y buddsoddiad a gynigir yw **£790.3m**, gyda bron i **£100m** o gyfraniadau sector preifat uniongyrchol a **£272.2m** o gyfraniadau gan amrywiol bartneriaid. Rydym yn ceisio **£393m** gan y Cynllun Twf a **£28.9m** o arian refeniw ar gyfer y Cynllun Twf;
- Caiff bron i **5,000** o swyddi uniongyrchol eu creu, a gwerth buddsoddiad y sector preifat a gyflawnir o ganlyniad uniongyrchol i'r prosiectau sy'n cael eu cyflawni (buddsoddiad anuniongyrchol y sector preifat) fydd **£3.2bn**;
- Y nod cyffredinol yw cynyddu gwerth economi gogledd Cymru o **£12.8biliwn** yn 2016 i **£22biliwn** erbyn 2035;
- Hefyd, rydym yn ceisio cefnogaeth Llywodraethau'r DU a Chymru i dderbyn mwy o gapasiti a'r hyblygrwydd i wneud penderfyniadau allweddol ar lefel ranbarthol. Ceisir pwerau a chyfrifoldebau newydd i hwyluso twf mewn meysydd polisi allweddol megis trafndiaeth a chyflogaeth;
- Mae'r rhanbarth wedi sefydlu trefniadau llywodraethu newydd a chadarn i gydlynu a chyflawni'r Weledigaeth Twf ar gyfer y rhanbarth. Bellach, bydd swyddogaethau megis datblygu'r economi, sgiliau a chyflogaeth, trafndiaeth a chynllunio defnydd tir yn cael eu cydlynu gan "Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru" ar ei newydd wedd;
- Caiff grŵp newydd o randdeiliaid ei sefydlu hefyd, wedi'i arwain gan y sector preifat, i gefnogi, cynghori a herio Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru;
- Bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ynghyd â'i drefniadau a'i strwythur llywodraethu, yn rhoi arweinyddiaeth ac atebolrwydd ar gyfer cyfeiriad a deilliannau strategol. Hefyd, bydd yn llais cryf ac unedig ar gyfer gogledd Cymru.